

Ordinhad 4:

Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

Y Corff Cymeradwyo:	Y Cyngor
Dyddiad Cymeradwyo:	24 Ebrill, 2020
Perchennog y Polisi:	Ysgrifennydd y Brifysgol
Swyddog Polisi:	Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio
Statws y Polisi:	Newydd
Fersiwn:	1.0
Dyddiad adolygu:	Ebrill 2023

Ordinhad 4: Y Cyngor: Aelod a Enwebir gan y Staff Academaidd

1. Yn unol ag adran 9.3 y Siarter, penodir yr aelod a enwebir gan y Staff Academaidd i'r Cyngor fel a ganlyn.
2. Cyfnod arferol cynrychiolydd y staff academaidd mewn swydd ar y Cyngor fydd pedair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i'w ailbenodi fel arfer am un cyfnod arall hyd at bedair blynedd ac yna bydd yn anghymwys i'w ailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o bedair blynedd wedi mynd heibio.
3.
 - a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth y Staff Academaidd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu holl aelodau'r Staff Academaidd sy'n gyflogedig ar y pryd o hynny ac yn galw am enwebiadau.
 - b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Cyngor, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.
 - c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.
 - d. Ni fydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Gweithredu, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu/ei henwebu.
4. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.
5. Ysgrifennydd y Cyngor fydd yn penderfynu ar ddull yr etholiad, ac eithrio'r hyn a ddarperir yma.
6. Os daw unrhyw sedd yn wag o dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull tebyg i'r uchod. Bydd y sawl a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.